Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xlvii. MEHEFIN, 1947. Rhif 6.

Y Dr. Daniel (Hughes) Jones.

(Gan y Prif-athro J. Islan Jones, M.A.).

Y mae llawer o efrydwyr, a rhai gweinidogion hefyd, o dro i dro, wedi derbyn cymorth ariannol o Gronfa Dr. Daniel Jones ; ond ychydig ohonynt, yn dra thebyg, a wyddai lawer o hanes eu cymwynaswr, ac efallai nad anniddorol fydd gair am dano ar dudalennau'r Ymofynnydd.

Brodor o Lanfihangel Ystrad, Dyffryn Aeron, Ceredigion, oedd ef ; a mab i wraig weddw, dlawd a chanddi bump o blant i'w magu. Daniel oedd yr ieuaf ohonynt. Ychydig o addysg a gafodd yn blentyn, ond wedi rhai blynyddoedd, enillodd sylw a chydymdeimlad cymydog a pheth cyfoeth ganddo. Anogodd hwnnw ef, a'i gynorthwyo i fynd i ysgol glodfawr Dafis, Castellhywel. Ac ef eto yn ifanc, bu farw ei gymwynaswr, ond trwy benderfyniad a gweithgarwch bu'n alluog i barhau gyda'i gwrs o addysg ; a derbyniwyd ef, yn fachgen dwy ar hugain oed, fel efrydydd am y weinidogaeth, i Goleg Efrog (*York*) gyda chynhorthwy ariannol oddiwrth y Bwrdd Presbyteraidd yn Llundain (1803—1806). Yn gydefrydwyr ag ef yng Ngholeg Efrog, yr oedd dau Gymro—John Jones, yn enedigol o ardal Gellionnen (a fu farw yn 1813) ; a John Lewis, o Sir Aberteifi, a fu farw cyn terfynu ei gwrs coleg, yn dair ar hugain oed.

Yn fuan wedi iddo ymadael â'r Coleg (yn 1806) aeth Daniel Jones i lanw lle ei gyd-efrydydd John Jones, fel athro yn nheulu Mrs. Morgan, gweddw i nai y Dr. Richard Price. Wedi hynny, sefydlodd ysgol yn Halifax, a fu yn weddol llwyddiannus am dymor, ond yn 1811, cafodd le fel athro a chydymaith teithiol i wr cyfoethog, a chyflog dda am ei waith. Pan fu farw'r boneddwr hwnnw yn Hydref 1812, gadawodd ar ei ôl gymynrodd o fil o bunnau, a blwyddal o gant punt neu gant a hanner i Ddaniel Jones.

Yn nesaf, cawn ef yn gwasanaethu yn siop gwerthu a chyhoeddi llyfrau Owen Rees—Longman, Rees, Orme a'u Cyfeillion, Pall Mall, Llundain. Ar ôl hyn, aeth i'r Cyfandir, ac yr oedd ym Mharis pan ddychwelodd Napoleon o Elba. Yn ddiweddarach eto, yr oedd yn athro yn nheulu Mr. John Chatfield, enwog fel masnachwr coed. Yn 1819 neu 1820, yr oedd ym Mharis unwaith eto ; a thra yr oedd yno, goddiweddwyd ef gan dwymyn a'i poenodd ar droeon am amser hir. Tua 1820, yr oedd yn byw yng nghymdogaeth Llundain, ac wedi priodi a gweddw, ag un ferch ganddi.

Ni bu erioed yn weinidog sefydledig, yr oedd yn gyfaill cynnes i'r Parch. Henry Davies, Ll.D., ac ymwelai ag ef yn Taunton. Treuliodd y rhan olaf o'i oes yn Park Place, Milton, gerllaw Gravesend, ac yno y bu farw Awst 22, 1866 ; goroeswyd ef gan ei briod a'i ferch. Dywedir iddo dderbyn y radd o Ll.D. o Brifysgol Glasgow, ond nid oes sicrwydd am hynny.

Yn 1847 yr oedd Daniel Jones ar wyliau yn Aberaeron, nid nepell o'i ardal enedigol. Clywodd fod John James, gweinidog yr Undodiaid yng Ngellionnen, a'i gyd-ysgolhaig yng Nghastellhywel gynt ar ymweliad ag Ystrad, ac ar y trydydd dydd o Orffennaf, ysgrifennodd ato i ofyn a wnai Mr. James ddod i'w gwrdd yn Aberaeron i gael ymgom, ar ôl ysbaid o lawer o flynyddoedd. Yna dywed, "Efallai y gallaf eich hysbysu, yn hollol gyfrinachol am rywbeth sydd ar fy meddwl mewn perthynas i fater sydd yn annwyl i chwi ac i minnau ; a dichon y bydd ymgom gyfrinachol a chwi yn gyfarwyddyd i mi yn y mater y cyfeiriaf ato."

Aeth Mr. James i Aberaeron, a chafodd ymgom a'i hen gyfaill. Awgrymodd Dr. Jones ei fwriad i adael cymynrodd i Goleg Efrog (Coleg Newydd Manceinion, yn Rhydychen erbyn hyn), a hefyd swm gyfartal i ymddiriedolwyr er budd yr Academi Undodaidd yng Nghaerfyrddin ; y byddai'r incwm a ddeilliai o'r cymynroddion, yn dod i'r colegau, i ddechrau, ymhen deuddeng mis ar ôl marw'r olaf o dri bywyd (Dr. Jones, ei briod a'i ferch) ; y byddai ei roddion yn cyrraedd symiau sylweddol, ac i'w buddsoddi yng Nghronfeydd y Llywodraeth, fel ag i sicrhau incwm blynyddol cyson i'r ddau sefydliad Undodaidd.

Wedi chwe blynedd, ar y cyntaf o Orffennaf 1853, sgrifennodd y Dr. Jones eto, o'i gartref, at Mr. James, i'w atgofio o'r cynllun a ddadlennodd iddo yn Aberaeron, gan ychwanegu ei fod yn bwriadu gadael cymynroddoion pellach i sicrhau addysg elfennol i nifer o fechgyn tlodion ym mhlwyf Ystrad ; hefyd, swm flynyddol i fwyhau cyflog gweinidog Capel Undodaidd Rhydygwin.

Gofyn y Dr. Jones am farn a chyngor Mr. James, "Canys," meddai, "gosodaf bwys arbennig ar eich barn chwi, oherwydd eich gwybodaeth helaeth o'r ardal, ac o'r cynllun mwyaf effeithiol i ledaenu egwyddorion Undodaidd yn Neheudir Cymru. Byddaf

ddiolchgar i chwi am bob gwybodaeth angenrheidiol a ellwch roddi i mi ar y pwnc. Ni wn i ond y nesaf peth i ddim am gyflwr pethau yn Academi Caerfyrddin yn bresennol,—ni wn hyd yn oed enwau'r athrawon, ond eiddo Mr. Lloyd sydd, fel rwy'n deall, yn nai i'n cyfaill ymadawedig Dr. Charles Lloyd o Goedlannau. Am fod fy iechyd a'm nerth yn graddol wanhau, yr wyf yn awyddus i drefnu fy ychydig faterion heb oedi. Cedwch gynnwys y llythyr hwn yn gyfrinach, oddigerth i'r sawl y medrwch roddi llwyr ymddiried ynddynt."

Nid ymddengys, fodd bynnag, i'r Parch. John James ymgynghori â neb o'i gyd-weinidogion ; ond danfonodd nodyn i'r Dr. Jones, ar unwaith, yn dweud, "Y mae Academi Caerfyrddin wedi peidio, ers cryn amser, a bod mor ddefnyddiol i achos y gwirionedd, ymhlith Undodiaid, ag ydoedd pan wrthodwyd eich derbyn chwi, a minnau, am y tybid ein bod yn coleddu syniadau Undodaidd heretic aidd. Oddiar y daeth Dr. Davison i gysylltiad a'r Academi (yn 1847), gwnaethpwyd llawer o gyfnewidiadau, a'r rhan fwyaf ohonynt yn anffafriol i Undodiaeth yng Nghymru. Gostyngwyd y cymorth ariannol i'r efrydwyr, o ugain punt i ddeg yn y flwyddyn, gyda'r canlyniad ei bod yn amhosibl iddynt i'w cynnal eu hunain, heb gynhorthwy helaeth o ryw ffynhonnell arall ; ac ychydig o gynhorthwy a gaiff bechgyn tlawd.

Ni ddysgir Diwinyddiaeth na Moeseg yno yn rheolaidd mwyach ; am fod y gwybodau hyn, ac achosion eraill, yn gyrru mwy o'r efrydwyr i Eglwys Loegr nag i rengoedd gweinidogion Undodaidd Cymru. Y mae llawer o eisiau gweinidogion ar hyn o bryd, ond ni ellir eu cael. Oherwydd fy mod yn fy mhymthegfed flwydd wedi'r trigain, byddwn i yn ymddeol, pe cawn rywun i gymryd fy lle.

Yn fuan ar ôl i Mr. Davison ddod i gysylltiad a'r Academi, wedi marw o'r Dr. Abraham Rees (yn 1825), fe geisiodd (yn ôl a glywais), gan y Bwrdd yn Llundain, i symud yr Academi o Gymru ; ond ni chydsyniodd y Bwrdd, y pryd hwnnw ; a dywedwyd wrthyf, yn gyfrinachol, fod bwriad i wneuthur hynny yn awr ; ond nad Davison a'i cychwynodd y tro hwn. Nid wyf yn sicr a ydyw'r peth yn wir ai peidio : amser a ddengys.

Y mae yn wir, meddai'r Prif-athro W. J. Evans, i naw o fechgyn, a fu yn efrydwyr yn yr Academi rhwng 1835 a 1847, fynd drosodd i Eglwys Loegr, cyn 1853 ; ond y mae lle i amau gosodiad John James ynghylch prinder gweinidogion. Yr oedd gweinidog ar bob eglwys Undodaidd yn Neheudir Cymru yn 1853.

Ar y ddeunawfed o Fawrth 1835, ysgrifennodd y Parch. Thomas Rees, Ll.D., F.S.A. (ysgrifennydd y Bwrdd Presbyteraidd) at y Parch. John James fel hyn, "Ers llawer blwyddyn, gallaf ddweud, oddiar y daeth ef i gysylltiad a'r sefydliad (yn 1825), mynwesodd Mr. Davison y rhagfarn eithaf yn erbyn yr Academi Gymreig ; ac

ar lawer achlysur, ceisiodd ddylanwadu ar y Bwrdd i roddi terfyn pendant arni ; ond, hyd yn hyn, mi lwyddais i gael barn y rheolwyr o'm tu i anwybyddu ei gais. Cyfarfu'r Bwrdd lawer o weithiau yn ystod y pedwar mis diwethaf, a buasai Mr. Davison wedi adnewyddu ei gynnig i lwyr ddifodi'r Academi, onibai am benderfyniad blaenorol y Bwrdd, bod angen sefydliad o'r fath yng Nghymru. Wedi i'r Bwrdd benderfynu hyn, newidiodd yntau ei safbwynt ; a'i gynllun presennol yw cadw'r Academi ar raddfa lawer llai, a chydag amcanion mwy cyfyng."

Ysgrifennodd y Dr. Daniel Jones at John James ar yr wythfed o Orffennaf 1853, "y mae eich tystiolaeth am Academi Caerfyrddin yn hollol newydd i mi, ac nid ymddengys y dull o'i rheoli i mi yn galonogol iawn i achos syniadau rhyddfrydig yn Neheudir Cymru. Y mae'r gostyngiad i ddeg punt o'r cymorth ariannol i'r efrydwyr, ac at hynny, y posibilrwydd y symudir yr Academi o Gymru, yn debyg o beri i mi newid fy mwriad i adael rhan o'm heiddo i'r Academi honno i'r pwrpas pendant o ledaenu syniadau crefyddol Undodaidd yn y Dywysogaeth. O dan yr amgylchiadau, efallai mai doethach fyddai mwyhau fy rhodd i Ystrad, dyweder i ddwbl y swm a amcenais roddi ar y cyntaf. Os felly, ni adawaf gymynrodd i'r Academi. Eto, byddwn ddiolchgar am eich barn ar y mater."

Atebodd John James ar unwaith, "Carwn ysgrifennu atoch ychydig eiriau ychwanegol at fy llythyr diwethaf, mewn perthynas a chyflwr presennol Undodiaeth yng Nghymru. Y mae yr Undodiaid yma yn llafurio o dan yr anfantais o brinder gweinidogion, am na chyfyd gweinidogion annysgedig neu hunan-ddysgedig yn ein plith, a phe cyfodent ni fyddent gymwys ; ac ni chawsom yr un troadur o blith yr efrydwyr Calfinaidd, oddiar y dydd y dechreuwyd y cynllun presennol o gario ymlaen Academi Caerfyrddin, o dan brif-athro Undodaidd.

Efallai, y cofiwch beth a gynigiwyd, ddeugain mlynedd namyn un yn ôl, gan y diweddar Mr. Davis o Gastellnedd, mab i'n hen athro D. Davis o Gastell Hywel, sef ei fod ef a minnau, i ymgymeryd ag addysgu tri neu bedwar o fechgyn ieuainc i'r weinidogaeth yng Nghymru, ac i'r pwrpas hwnnw, addawodd ein hen gyfaill D. J. Rees, dalu pum punt ar hugain y flwyddyn ; ond ni chyflawnwyd y bwriad er ei fod yn rhan o'r dylanwad a'm symudodd i i Sir Forgannwg. Oni wneir rhywbeth o'r fath, cyn hir, gadewir cynulleidfaoedd Undodaidd Cymru heb weinidogion."

Ymhen deng niwrnod, ysgrifennodd John James eto at Dr. Daniel Jones, "Ymddengys i mi mai prif angen Undodiaid Cymru, ar hyn o bryd, yw sefydliad i addysgu dau ddyn ieuanc i'r weinidogaeth yng Nghymru, bob blwyddyn, gan fod Coleg Caerfyrddin, i bob ymddangosiad, wedi peidio a bod o wasanaeth i Undodiaeth Gymreig."

Ar yr wythfed o Fedi, atebodd Dr. Daniel Jones ;—"Yr wyf yn awyddus i roddi'r ychydig gymorth a fedraf er hyrwyddo rhyddymchwil, a syniadau rhyddfrydig yn fy ngwlad enedigol ; ac o chaffwyf eich cyd-waith doeth ac amserol, hyderaf y llwydda ein hymdrechion unol yn y diwedd i sicrhau'r amcan sydd mor annwyl i ni ein dau."

Ar yr unfed ar hugain o Hydref, dywed y Dr. Daniel Jones wrth John James, "Mae'n dra thebyg na fuaswn i yn y sefyllfa yr wyf ynddi yn bresennol, onibai i mi gael y manteision a gynygiwyd i mi gan Academi Efrog, pan oeddwn heb arian i dalu am yr addysg a gefais yno."

Gwnaeth y Dr. Daniel Jones ei ewyllys ar y ddegfed ar hugain o Dachwedd 1858. Gadawodd y swm o £6,750, yn dwyn llôg o dair punt y cant (£202 : 10 : 0 yn flynyddol) i ymddiriedolwyr, sef y Parchedigion John Kenrick, John James Tayler, James Martineau, a Robert Needham Phillips, Ysw., ar ôl marw ei briod a'i ferch (fabwysiedig) ; y llôg (o dan yr enw 'Cronfa Dr. Daniel Jones') i'w ddefnyddio i ledaenu Cristnogaeth yn ei ffurf symlaf a mwyaf dealladwy ; i gefnogi hawl dynion i farn bersonol ddilyffethair ar bynciau crefydd ; yn arbennig i hyrwyddo addysg gadarn, ryddfrydig i'r ieuainc ; ac i gynorthwyo gweinidogion yr Efengyl ym mhlith Ymneilltuwyr Protestanaidd ; ond nid at un achos arall. Gyda golwg ar y modd i weinyddu'r Gronfa, ni wnaeth un reol bendant ; ond rhoddodd dair o awgrymiadau y gallai'r Ymddiriedolwyr eu mabwysiadu os ystyrient hynny yn beth doeth. Wele'r awgrymiadau,—

1. Rhoddi deugain punt y flwyddyn tuag at addysg chwech neu wyth o fechgyn tlodion, o saith i bedair-ar-ddeg oed, o Ystrad, Llanfihangel Ystrad, a ddewisir o dro i dro, gan weinidog capel yr Ymneilltuwyr Protestanaidd, a elwir yn gyffredin yn Undodiaid, sef Rhydygwin, gerllaw Ystrad ; ac os bydd y gweinidog hwnnw yn fodlon ymgymeryd a'r gwaith o addysgu'r bechgyn, taler iddo ef y swm a benderfynnir ei thalu tuat at y gyfryw addysg.

2. I roddi cant a hanner y flwyddyn i sefydlu tair neu ychwaneg o Ysgoloriaethau heb fod yn llai na hanner canpunt yr un, bob blwyddyn, am dair blynedd i efrydwyr Diwinyddiaeth yng Ngholeg Newydd Manceinion.

3. I ddefnyddio unrhyw weddill o'r incwm, fel y tybir yn ddoethaf, yn rhoddion o bump i ddeg punt i'r gweinidog a enwyd, pa un a fydd ef yn ymgymeryd ag addysgu'r bechgyn a'i peidio. Ar ôl talu pob treuliau mewn perthynas â'r Gronfa, aed unrhyw swm a ddichon fod dros ben i chwyddo incwm Coleg Newydd Manceinion.

Ni wn a oes rhai o berthynasau y Dr. Daniel Jones yn fyw heddiw, ai peidio. Priododd ei chwaer Margaret a Thomas Williams, Yr Union, Ystrad. Bu hi farw yn Aberaeron, Rhagfyr 4, 1853 yn 83 oed.

Gyda golwg ar waith y Coleg yn gwrthod derbyn John James a Daniel Jones, yn Haf 1802, ymddengys mai dau yn unig a ellid dderbyn y flwyddyn honno. Disgyblion y Dr. Charles Lloyd oedd John James a Daniel Jones ; ac yr oedd gelyniaeth rhwng Dr. Lloyd a Mr. Peter, Prif-athro Coleg Caerfyrddin. Y ddau efrydydd a dderbyniwyd oedd D. P. Davies (nai i'r Prif-athro Peter) a James Griffiths,—y ddau wedi eu haddysgu yn Ysgol y Coleg a oedd o dan arolygiaeth y Prif-athro. Ni ddywedir bod safon dysg John James a Daniel Jones yn is nag eiddo'r ddau arall. O ystyried yr amgylchiadau, naturiol yw meddwl bod gan neiaeth (*nepotism*) rywbeth i wneuthur a'r mater, a bod gan ddiwinyddiaeth beth dylanwad hefyd.

Fodd bynnag, credai'r Prif-athro W. J. Evans na wrthodwyd derbyn i mewn, ac na thorrwyd allan unrhyw efrydydd, erioed, o Goleg Caerfyrddin, oherwydd ei syniadau diwinyddol.

Hen Dy Cwrdd, Cefn Coed y Cymer.

Hwyrach nad yw Cefn Coed y Cymer i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr Yr Ymofynnydd ond tref fechan rhywle ar y ffordd fawr o Aberhonddu i Gaerdydd, ac nid yw'r Hen Dŷ Cwrdd ond megis enw erbyn hyn ar fap yr enwad, oherwydd anfynych yr ysgrifennir am yr achos, ac y cofnodir ei ddigwyddiadau ar dudalennau ein Cylchgrawn Cymraeg. Ni wn ar bwy y mae'r bai. Hwyrach i rai feio'r Gweinidog. Eithr cywirach fyddai beio'r Gynulleidfa am iddi bellach addoli fwy yn y Saesneg nag yn y Gymraeg, ac i'r do ifanc fyned yn Saeson bron i gyd.

Fe ddywedir mai ystyr *Cymer* yw uniad dwy afon yn dwyn yr un enw. Ar un ochr i'r pentref fe geir *Taf fechan*,—yr ochr arall *Taf fawr*, ill dwy yn tarddu yn nhawelwch ac unigedd rhamantus gwyllt Bannau Brycheiniog. Ar "bont y Cefen," sy'n ffin rhwng Morgannwg a Brycheiniog, ant yn un afon. Fan honno fe beidia un â bod yn 'fach' a'r llall yn 'fawr,' ac oddiyno i'r môr yng Nghaerdydd rhedant yn 'Un' wrth yr un enw—afon Taf. Ar begwn yr Uniad, ac yn gefn uchel i'r ddwy afon y saif Cefn Coed.

Fel y saif Cefn Coed ym mherthynas y ddwy afon, felly y saif yr Hen Dŷ Cwrdd yn hanes Cefn Coed, yn gefn ysbrydol i fywyd yr ardal am ddau cant o flynyddoedd, ac yn fangre yr "Uniad fawr" rhwng dyn a Duw. Saif y capel ar lecyn tir yn wynebu Merthyr Tydfil y sydd rhyw ddwy filltir islaw. Pan sefydlwyd yr achos gan y fintai ddewr o Gwmglo nid oedd yng Nghefn Coed ond rhyw hanner dwsin o dai, a hen goeden Ywen na wyddai neb mo'i hoedran. Yn ei chysgod yr adeiladwyd y capel, ac megis yn

ei gysgod yntau ac o'i amgylch y tyfodd y pentref sydd bellach wedi tyfu yn dref.

Ydyw, y mae'r Hen Dŷ Cwrdd erbyn hyn yn hen. Hydref eleni, fe ddethlir ei ddau can mlwyddiant. Nid i fi y perthyn yr anrhydedd i draethu ei stori ddiddorol, stori y dylai pawb sy'n caru rhyddid a gwirionedd wybod amdani. Ym mhen ychydig fisoedd fe gyhoeddir y stori gan un o ffyddloniaid yr achos mewn llyfr a fydd ar werth yn ein heglwysi. Gan edrych ar yr ysgrifen a gerfiwyd gan y tadau ar y mur y tuallan : "I ni, nid oes ond un Duw y Tad"—gofynnaf, beth am y dyfodol ?

"Dysg i mi gyfrif fy nyddiau"—dyna fwrw golwg yn ôl : "Fel y dygwyf fy nghalon i ddoethineb"—dyna fwrw golwg ymlaen. Un ffordd sydd i'r blynyddoedd heneiddio—a hynny mewn Hanes, ac ni fedrir galw y gorffennol yn ôl. Eithr fe ellir adnewyddu'r *'profiad'* trwy fenter a gweledigaeth. Ai felly y mae hi ar Eglwys Dduw heddiw ? Ai felly yn yr Hen Dŷ Cwrdd ? Y mae'r ateb bob tro gyda'r ifanc, a'r ifanc a gaiff y sylw pennaf yn y nodiadau hyn.

Y Broblem Fawr ! Perthyn i bob cynulleidfa ei phroblemau ei hun. Ond y mae yna un broblem sy'n blino pob eglwys heddiw—problem yr ifanc. I'r sawl a gymer ddiddordeb mewn ffigurau y mae yma Ysgol Sul o gant a hanner, a changen o bobl ifainc yn rhifo'r deg ar hugain. Eithr ni ellir mesur llwyddiant eglwys mewn 'Mathematics.' Sêl a brwdfrydedd gyda'r achos, a ffyddlondeb i'r addoliad yw mesur ei llwyddiant. Rhyw gwyno yn y cyfeiriad yna a glywir heddiw ym mhobman. Ni ellir *gwella* trwy *gwyno*. Ceisio wynebu'r broblem yn onest, ac ennill diddordeb yr ifanc a ddylasai pob eglwys wneuthur heddiw. Dyna fu hanes 1946 yn yr Hen Dŷ Cwrdd.

Pwyllgor yr Eglwys : Yn nghyfarfod blynyddol yr eglwys y llynedd torrwyd tir newydd. Penderfynwyd rhoddi cyfle i'r ifanc. Yn lle pwyllgor o oedolion yn unig trefnwyd cael cynrychiolaeth o bob adran o'r Gynulleidfa ar y pwyllgor, ac etholwyd y Bobl Ifainc i swydd. Eleni disgwylir i'r "*Young blood*" adnewyddu ieuenctid yr achos, a rhoddi bywyd newydd yn yr hen wythiennau. Yn sicr, doeth y cynllun, eithr amser a ddwed am ei lwyddiant.

Yr Ysgol Sul : Yma y mae ffyddlondeb diguro. Gwobrwywyd 103 o blant ac athrawon yn 1946—wyth ohonynt wedi cadw'r flwyddyn yn ddifwlch. Er ceisio ennill diddordeb y plant yn yr addoli cyhoeddus cynhaliwyd nifer o wasanaethau arbennig yn ystod y flwyddyn,—y pwysicaf ohonynt oedd y Gwasanaeth Coroni, "*Coronation of the Sunday School Queen.*" Dyma wasanaeth sydd bellach yn un blynyddol. Dewisir y Frenhines am ei ffyddlondeb a'i chymwysterau arbennig. Saif yn y Swydd am y flwyddyn fel arweinydd y Bobl Ifainc a'r plant. Yn unol â'r cynllun etholwyd eleni eneth ieuanc yn ysgrifenyddes yr Ysgol Sul, a danfonwyd 12

o'r Bobl ieuainc i gynhadledd yr Ysgol Sul yn Llanmadoc wythnos y Sulgwyn. Er dwyn y plant i gyffyrddiad ag Ysgolion Sul y cylch ymunwyd ag "Undeb Ysgolion Sul Merthyr a'r Cylch," a chyfarfod i'w hir gofio ydoedd cyfarfod cyhoeddus cyntaf yr Undeb pan berfformiwyd drama blant—"*Jewels of Cwmyglo*" yng Nghapel y Bedyddwyr ym Merthyr gan Ysgol Sul Hen Dŷ Cwrdd.

Eithr fe berthyn i'r Ysgol Sul hefyd ei phroblemau,—prinder athrawon cymwys i'r dosbarthiadau, a phrinder ystafelloedd digon eang a phwrpasol i'r gwaith. Ymdriniwyd yn ofalus a'r ddwy broblem yn ystod y flwyddyn, a gobeithir y bydd yma neuadd fechan newydd erbyn dathlu'r dau can mlwyddiant.

Y.P.L. Gobaith pob eglwys yw yr ieuanc, eithr nid oes obaith oni cheisir eu diddori, a neilltuoli un noson o'r wythnos o leiaf iddynt i ymarfer yn gyhoeddus. I'r amcan hwn y sefydlwyd cangen newydd o Gymdeithas y Bobl Ieuainc. Y mae'r swyddogion i gyd o dan ugain oed. Cafwyd cyfarfodydd llwyddianus yn ystod y flwyddyn o Ddarlithiau, Eisteddfodau, Brains Trusts, Cyfarfodydd Adloniadol a Gwasanaethau Crefyddol. Cynhaliwyd yr Eisteddfod fawr ar wythnos y Pasc, a'r Parch. E. R. Dennis, Aberdâr yn un o'r beirniaid. Etyb Y.P.L. ddau ddiben—sef ennyn diddordeb crefyddol yn yr achos, a chymdeithasu â phobl ieuainc o eglwysi eraill. Ar Ionawr 11 ymwelwyd â'r Hen Dŷ Cwrdd gan aelodau Abertawe a Threbanos, a'r Parch. D. Jacob Dafis, Aberdâr yn llywyddu. Talwyd y pwyth yn ôl ar Fawrth 15 pan ymwelwyd ag Abertawe. Tro Trebanos fydd hi ym Mehefin, ac edrychir ymlaen am gwmni llawen a chwpanaid o dê ar fynydd Gellionnen.

Dyma'r fan efallai y dylid cyfeirio at drŵp "Boy Scouts" y Capel. Amcan y mudiad yw adeiladaeth cymeriad a chwmpeini natur yn yr awyr agored. Y mae ffordd at Dduw a'r Bywyd gwell hyd yn oed yn y fan hon. Anrhydedd cael bod yn Scowt y Capel, a phwy o'r bechgyn a anghofia'r gwersyll yn Nhalybont flwyddyn yn ôl !

Y Gymdeithas Ddramodol. Y mae hon bellach yn hen sefydliad yn yr eglwys, ac o hyd yn parhau yn ei diddordeb. Ymhlith y dramau a berfformiwyd gan y cwmni yn ddiweddar y mae "Dr. Wake's Patient," "Paddy the next Best Thing", "Lilies of the Field," "The late Christopher Bean," "Pageant of the Nations," ac eraill. Perfformiwyd rhai dramau yma tu allan i'r cylch, ac afraid dweud i'r Gymdeithas fod yn gymorth ariannol i'r achos.

Cynghrair y Gwragedd. Nid yr ifanc a gaiff berthyn i hwn, ond teg ei henwi am lawer rheswm. Dyma fywyd ac egni'r Gynullfeidfa, ac oni ellir galw'r aelodau yn 'ifanc,' y maent yn ddigon "*young in spirit*" i fod o hyd ar y blaen mewn ffyddlondeb i'r achos, a gweithgarwch diflino. Beth fyddai hanes llawer eglwys onibai am deyrngarwch a diwydrwydd y chwiorydd ? Cyfarfyddant un noson bob wythnos drwy'r flwyddyn, ac yn y gwau a'r gwnio uwch y cwpanaid tê y mae brwdfrydedd mawr. Ffrwyth eu gweithgarwch

a'u diwydrwydd yw'r ddwy "Sale of Work" a gynhaliwyd y ddwy flynedd ddiwethaf yn y Drill Hall.

Er Coffadwriaeth. Ni ellir adeiladu'r dyfodol heb gofio'r gorffennol a'i ffyddloniaid. Y mae'r fynwent o amgylch y Capel, a beddrodau'r Tadau dan gysgod yr "Ywen ddu ganghennog," yn annwyl i geraint yr achos, ac nid y lleiaf annwyl yr aelodau hynny a gollwyd yn yr Angau yn ystod y flwyddyn.

Mrs. John Jones, Danyderi, 5 Ionor, 1946.—Gwraig oedrannus ydoedd Mrs. John Jones, a thrwy ei bywyd bu yn ffyddlon i'r achos. Ni welwyd hi erioed yn cymeryd rhan amlwg ym mywyd yr eglwys. Y sedd gornel dan y galeri y tu ôl oedd ei sedd hi,—ond fe ofalodd bod y sedd honno yn llawn hyd eithaf ei gallu.

Miss Peggy Pugh, Rees' Court, 18 Mawrth, 1946. Merch ifanc ym mlodau'i dyddiau ydoedd Peggy Pugh. Ei chymeriad, fel ei gwallt, yn ddisglair, a'i natur fel ei gwên yn dlws. Colled i'r dyfodol oedd ei cholli hi.

Miss Bessie Morgan, Bucklands, 1 Medi, 1946. Un o golofnau'r achos oedd Bessie Morgan. Swyddog ac athrawes yn yr Ysgol Sul am 30 mlynedd. Aelod ffyddlon a gweithgar. "Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth." Y mae ein colled heddiw yn fwy na phan fu hi farw, am nad oes neb eto wedi dod i lanw ei lle.

Mr. Emanuel Lewis, Pontycapel, 12 Rhagfyr, 1946. Cymeriad fel ei enw ydoedd Emanuel Lewis. Yntau ar hyd y blynyddoedd hyd at ei oddiweddyd gan afiechyd wedi rhoddi diwrnod da o waith yn y Winllan fel Swyddog a blaenor, ac un o ymddiriedolwyr yr achos.

J.M.T.

Dyn a'i Aflonyddwch.

Gan y Parch. David Evans, Cwmiago.

Cymeriad Beiblaidd y perthyn iddo gryn fesur o swyn yw eiddo Abraham. Pe gofynnid imi enwi ffynhonnell y swyn, nid yn hawdd y deuai'r ateb. Un achos ohono, o bosibl, yw'r ysbryd aflonydd, crwydrol, anturiaethus, a nodewdda ei fywyd. Onid un o elfennau neu dueddfrydau cryfaf y natur ddynol yw'r elfen neu'r dueddfryd a ddaw i'r golwg mor amlwg yn ei fywyd ?

Dywedir y bu ein cyndeidau ni, Gymry, yn trigiannu, un adeg, filoedd o flynyddoedd yn ôl, rywle yng Nghanolbarth Cyfandir Asia. Ynghwrs amser, dechreuasant ymfudo tua'r gorllewin ; yn fwy cywir, efallai, gwthiwyd hwy tua'r gorllewin gan lwythau eraill, cryfach, o dras gwahanol, y tu ôl iddynt. Am filoedd o flynyddoedd, buont yn symud yn raddol, i'r un cyfeiriad, hyd y daethant i dir Ffrainc ; yna, i Brydain ; yna, drachefn, i Gymru a'r Iwerddon. Ni bu hyn yn derfyn ar eu crwydriadau ; dywedir bod

mwy o Gymry yn yr Amerig heddiw nag sydd ym Mhrydain i gyd.

O droi golwg i gyfeiriadau neu gysylltiadau eraill, daw'r un elfen i'r amlwg.

Un enghraifft ohoni a welir yn anturiaeth fawr Columbus—chwilio am gyfandir newydd hwnt i'r eigion. Bu llwyddiant Columbus yn achos i agor y drws i eraill ; byth oddiar hynny, bu trigolion gwledydd Ewrop yn troi eu hwynebau tua'r cyfandir newydd. Bernir bod poblogaeth bresennol yr Amerig (o leiaf) tua deucan miliwn ; yn debygol, gryn lawer lluosocach.

Gwelir yr elfen aflonydd yn dod i'r golwg mewn cyfeiriadau eraill. Methodd y tadau Pererinol â chael yn Lloegr y rhyddid i addoli a garent, a throisant eu hwynebau tua'r cyfandir newydd ; yno, wedi brwydro caled, sefydlasant gartref newydd mewn awyrgylch o ryddid. Onid mater i synnu o'i blegid ydyw—iddynt hwythau droi'n erlidwyr maes o law—wedi iddynt gael eu traed tanynt !

Onid oes rhywbeth hynod o awgrymiadol yn hyn i gyd ? Nytha yn y fynwes ddynol (ymhob mynwes ddynol) ddyhead am rywbeth nad yw, eto, yn ei feddiant. Ac er brwydro a dioddef ohono yn ei ymchwil, nis llwyr fodlonir. Mynd allan o un man i fynd i fan arall, heb wybod yn gywir i ba le ; ac nid byth y caiff ei hun yn y lle neu'r cyflwr delfrydol y dyhea am dano. O ba natur bynnag y bo delfrydau dyn, metha â'u sylweddoli'n gyflawn.

Oni ddwg hyn i gyd dystiolaeth i fawredd dyn. Ped anifail yn unig a fyddai dyn, ymfodlonai ar aros yn y man y'i ganed ynddo ; nis blinid gan unmath ar uchelgais ; ni ddyheai am fwy o ryddid, am fwy o feistrolaeth ar natur a'i nerthoedd a'i deddfau ; nis blinid, yn enwedig, gan anfodlonrwydd o barthed cyflwr ei natur foesol, na chan ddyhead anniwall am fywyd ysbrydol perffeithiach. Ni flinir yr anifail gan ddim o'r math hyn. Ni flinid dyn ganddynt, pe dim ond anifail yn unig a fyddai. Onid amlwg ydyw—bod yn natur dyn elfen—elfennau, o bosibl—a'i gwthid ymlaen i ennill tiriogaethau newydd ym myd mater a meddwl ac ysbryd ? Fel y symud ymlaen fel hyn o gam i gam, ni fedd un syniad clir, fynychaf, i ba le y mae'n mynd ; a chan nad pa mor bell yr â, nis llwyr fodlonir.

Oes yn hyn i gyd dim un awgrym o barthed i dynged dyn ? Mynych y try dyn ei olwg tua'r llen rhwng y presennol a'r dyfodol, gan hiraethu allu o hono dreiddio trwyddi, a chael ohono olwg ar y sydd y tu hwnt iddi. "Yn sicr," dyna fel yr ymresyma, "nid oes reswm dros gredu bod yr ymdrech i ddarfod fel mwg neu darth diafael, ar ôl taith fer, llawn o brofiadau o bobmath. Pe felly, onid 'gwagedd' a fyddai'r unig ddedfryd posibl ar fywyd." Onid rhywbeth tebyg i hyn yw iaith y gorau yng nghalon dyn ?

Rhyw ymchwil ddiaros, rhyw ddyhead anniwall, am fywyd cyflawnach, perffeithiach, yw un o nodweddau amlycaf a dymunolaf bywyd dyn, a'i corona â "gogoniant ac a harddwch."

Darllen.

Gan y Parchedig D. Delta Evans, Ilford.

II.

Er a ddywedwyd yn barod, erys yn wir nad oes diben ar wneuthur llyfrau lawer ; a phe bai rhywun yn ddigon ffôl i geisio darllen yr holl gyfrolau a gyhoeddir yn ei oes ei hun, byddai hynny nid yn unig yn flinder i'r cnawd ond yn llifeiriant llethol o lol ar yr ymennydd ! Erbyn hyn aeth "gwneuthur llyfrau lawer" yn gelfyddyd ffuglo—(chwyddo gan wynt) cylchrediad meddylfryd a meddyliau, yn gymaint â'i bod nid yn arllwys gwybodaeth ddirweddol o un gronfa i arall, eithr yn teneuo gwybodaeth nes bod yn ddim dirnadwy amgen arlliw gwan a gwelw, heb ddim i'w archwaethu namyn glastwr. O bryd i bryd, fe hysbysir megis â llais utgorn ryw ddarganfyddiadau "newydd" mewn daeareg neu ddynofyddeg neu "bom atomaidd" sy'n bygwth diorseddu pob datguddiad. Ac yn ebrwydd awn i chwilio am y llyfrau sy'n manylu ar y cyfryw ddarganfyddiadau, eu prynu, a'u darllen o ddechreu'r ddalen gyntaf hyd ddiwedd yr olaf ; a chyn belled ag y mae a wnelont â safle, swydd, grym, ac awdurdod Crefydd, ni a welwn ar unwaith mor fuan ac mor hawdd fyddai distyllu cymaint o wyddoniaeth newydd ag sydd ynddynt i ryw "Hwyrach," neu ar y mwyaf, i gwmpawd brawddeg a ellid ei hysgrifo ar ddeilen palmwydden. Dywedaf hyn heb wadu nac amau y cynnydd a wneir o hyd mewn darganfyddiadau ynglŷn â gwyddor anianyddol a'r celfyddydau mecanyddol sy'n cyffwrdd â chysur a lles dynion yn y byd hwn—ac wedi'r cyfan dyna lle y grisaleiddir gwybodaeth o'r natur ddynol cyn belled ag yr aeth eisoes i diriogaeth Hanes.

Pa fodd, ynteu, y gellir atal darllen rhag mynd yn flinder i'r cnawd, a'i wneud yn foddion gras i'r enaid a chynhaliaeth i'r meddwl—yn gyfrwng iechyd moesol, cynnydd, a goleuhad ? Yr amod gyntaf ymlaen oll ydyw penderfynu darllen yn ddeallus ac anelu at ryw amcan teilwng a daionus. Mewn geiriau eraill, modd y cyrhaedder y dibenion o ddiwylliant personol, adeiladaeth a gwybodaeth sylweddol, rhaid inni fabwysiadu cynllun Pendefig Bagdad gynt—cynllun a gymeradwyasai Solomon o'i flaen ef. Yn hytrach nag ymdaflu ar antur i eigion y llenoriaeth ddyfrllyd y sydd mor ddeniadol i'r dibrofiad yn y dyddiau hyn, y mae'n rhaid inni ddethol, dewis, distyllu, a chynghreiddio. O wneuthur hynny, yn ddoeth ac mewn pryd, fe ddilyn popeth arall yn ei drefn naturiol.

Cymhwysir y ddeddf foesol at ddarllen megis at bob gweithred arall o eiddo dynion. Y mae talaith darllen, megis talaith pob

math ar fusnes, yn ddeublyg—y mae iddi ei gwaith, ac y mae iddi ei chwarae. Ynglŷn â'r naill agwedd o'r dalaith y mae'n rhaid meddwl : eithr rhyddhad o orfod meddwl ydyw'r llall. Perthyn i'r ddwy ochr ei harfer a'i budd, gan fod i chwarae yn ogystal ag i weithio ei le priodol a chyfreithlon yn nhrefn darbodaeth bywyd a byw. Eithr os chwarae, a dim *ond* chwarae, y bydd dyn, fe â'n ddiog a difedrus ; llecir a meddalheir ei gyhyrau, ac yn fuan fe ymlygra nes bod yn flinder iddo'i hun ac yn bla i eraill. Yr un modd, os byddys yn darllen er mwyn dim ond difyrrwch, heb i'r darllen fod o dan reolaeth pwrpas a chyfarwyddyd moesol, buan yr â cyhyrau'r meddwl yn llipa a diymadferth yn lle ymagor mewn deall, a chynyddu mewn nerth ; pylir y cyneddfau a thywyllir y rhagolwg, ac yn y man fe lwyr ddiflanna'r gallu i feddwl yn gyfunol, rheolaidd, a dwys. Wrth ddarllen er mwyn dim namyn diddanwch neu'n unig er mwyn "lladd amser" fel y dywedir ar lafar gwlad, nofiwn yn syml megis broc môr ar wyneb y dyfroedd ar ôl llongddrylliad, gan roi i fyny'n llwyr bob meddwl am oleuni ac awydd am gyfarwyddyd, a chael ein cludo'n ddidaro gyda llifeiriant geiriol y rhamant neu'r stori ; a hynny am na ddarllenwn ddim ond na fyddo'n bur agos i'n lefel ni ein hunain.

Ar y llaw arall, y mae darllen i ryw ddiben penodol yn hawlio ein bod yn ymgodymu â llyfrau sydd uwchlaw ein lefel ac yn ein gorfodi i wregysu lwynau'r meddwl i nithio, cymharu, chynghreiddio, gan nodi hyn ac arall gyda'r ysgrifbin sydd yn barhaus wrth law. Rhaid rhestru, graddio, a cheisio dirnad pa beth sydd fanus a pha beth sydd rawn—gwyntyllu allan y naill a chadw'r llall yn ofalus ar ein palmwydd-ddeilen. O wneuthur hyn, yn drwyadl, ymarferir cyneddfau uchaf y meddwl, y gallu i ddal sylw, i ystyried a myfyrio ; ac fe gynhyrchir ynom chwaeth foesol iachus a barn ddeallus, a chaiff y meddwl gysondeb, trwch, a chadernid haearnaidd i'w gyhyrau.

Credaf y gorbrisir fel rheol y budd a ddêl o ddarllen ynddo'i hun. Prin y daw dim. Pwyll, myfyrdod, barn a deall piau hi ynglŷn â darllen megis ynglŷn â busnes. Yr ydys yn anghofio na fedrai llawer o'r hen fasnachwyr llwyddiannus gynt ddim darllen. O ran hynny, anghofir hefyd mai yn ystod rhai cyfnodau nodedig mewn hanes, y darllenwyr mwyaf oedd y penbyliaid hurtaf, ac na fedrai llawer o'r dynion a feddai fwyaf o synnwyr cyffredin ymarferol ddim darllen o gwbl. Dywedir am Siarlymaen—meistr meddwl ei oes—na fedrai ef nac ysgrifennu na darllen. Blodeuai Siarl Fawr yn *A.D.* 733-814 ; a'r pryd hynny yr oedd pob ffurf ar addysg ysgol yn glöedig yng ngofal y mynaich, y culaf a'r mwyaf disynnwyr o bob dosbarth yn yr Oesoedd Canol. O'r braidd y gwnâi mynaich y cyfnod hwnnw ddim arall heblaw darllen ; eithr nid oedd ganddynt awydd gweled neb y tu allan i'w cylch eu hunain yn dysgu gair ar lyfr.

Y pwynt yw, y dylai darllen, megis pob gorchwyl arall a gyflawnir yn gydwybodol a deallus, fawrhau ac enhangu gorwel y meddwl, gan ennyn yn y darllenydd chwaeth iachus a barn glir. Oni wnelo o leiaf gymaint â hynny, blinder i'r cnawd ydyw yn ddiau ; a chystal pe na buasai'r gelfyddyd o argraffu erioed wedi ei dychmygu na'i darganfod cyn belled ag y mae a wnelo hi â ni fel unigolion. Na, nid oes dim budd o ddarllen, os *darllen* yn unig a wneir. Ffolineb dybryd ydyw darllen er mwyn dim ond difyrrwch. Yn ddilys ddigon, "lladd amser," ac o bosibl lladd yr enaid, a wna darllen heb feddwl, heb ystyried, heb adfyfyrio. O ddarllen yn ddeallus a myfyriol, gydag amcan teilwng a daionus mewn golwg, y daw budd. "Pan ddelo doethineb i mewn i'th galon, a phan fyddo hyfryd gan dy enaid wybodaeth ; yna cyngor a'th gynnal, a synnwyr a'th geidw."

Y Cyrddau Chwarter.

Cynhaliwyd y Cyrddau Chwarter nos Fawrth a dydd Mercher, Ebrill 15 a 16 yng nghapel Brondeifi, Llanbedr. Yr oedd y tywydd yn dda—yn rhy dda wedi'r gwanwyn oer ac eiraog i gael cynulliadau da ond daeth nifer gweddol o Frondeifi a'r cylch ynghyd. Pregethwyd nos Fawrth gan y Parch. E. O. Jenkins (yntau wedi hyn wedi cael damwain ond yn gwella). Prynhawn Mawrth cafwyd pwyllgor y Gymdeithas ac am 2.30 a 5 o'r gloch cafwyd gwasanaeth a dwy bregeth yr un. Pregethwyd gan y Parchedigion Lewis Williams, J. D. Jones, D. Jacob Davis a J. Marles Thomas a chafwyd pregethau amserol. Ni fedraf farnu'r pregethau am na chlywais mo'u hanner oherwydd nad oeddwn yn bresennol. Fe'm lluddiwyd gan angladdau rhag bod yno. Diolch i'r gweinidogion am ddod ar fyr rybudd ac i gynulleidfa Brondeifi am wneud cystal a'r bwyd yn brin ac anodd ei gael.

Cofnodion y Cwrdd Busnes.

Cynhaliwyd ym Mrondeifi, Ebrill 16, a'r Llywydd, Mr. D. J. Bowen, Trebanos yn y gadair. Yn absenoldeb yr ysgrifennydd cymerwyd y cofnodion gan y Parchedig E. O. Jenkins.

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol a'r Pwyllgor gwaith.

Myfyrwyr. Teimla'r Parchedig J. Marles Thomas fod yr amser wedi dod pryd y dylasai'r Gymdeithas benderfynu pa gymorth a all bachgen a'i wyneb ar y weinidogaeth ddisgwyl oddiar ei llaw. Pasiwyd gohirio ystyriaeth o'r mater hyd y Cwrdd Blynyddol.

Yr Ymofynnydd. Pasiwyd codi ei bris i chwecheiniog. Cynigiwyd hyn gan Mr. Jenkin Morgan, Llandysul, ac eiliwyd gan Mrs. Davies, (Deganwy), Brondeifi.

Capel Glyn Cothi. Ein bod yn diolch yn gynnes i Mr. W. S. Jones am ei ymgais lwyddiannus i gael gan y Forestry Commissioners beidio ag ymyrryd a'r darn tir y saif adfeilion y capel hwn arno. Pasiwyd hefyd ein bod yn gosod rhywbeth i fyny i nodi'r fan lle safai'r capel.

Dymuniad. Gofynwyd i'r ysgrifennydd ddanfon dymuniadau gorau'r Gymdeithas i Mr. W. S. Jones am wellhâd buan.

Y Cyrddau. Trefnwyd cynnal cyrddau'r Hâf yng Nghapel y Bryn a chyrddau'r Hydref yng Nghefn Coed.

I'R WENNOL.

Wennol fach, ti ddoist ar fyrder
I'r hen fro ;
Gwna dy nyth yn ôl dy arfer,
Dan fy nho ;
Dyro gân o ben y gromen,
Wennol lon ;
Diolch iti am ddod adre'n
Wyn dy fron.

Dygaist wanwyn a charolau
Eto'n ôl,
Ac fe wisgir heddiw flodau
Perth a dôl,
Pan ar d'adain gylch y bwthyn,
Wennol dlos,
Gwn y gweli eisiau rhywun
Ar y clôs.

Un mewn Hiraeth.

Priodas.

Mai 30, yng nghapel y Methodistiaid yn Hammersmith, Llundain, gan y Parch. Mr. Phillips, gweinidog, THOMAS JONATHAN DAVIES, mab David Davies a'r diweddar Anne Davies, Foelallt, Ciliau Aeron, yn awr Brynog, Ystrad, â CATHERINE JANE DAVIES, ail ferch Mr. a Mrs. Davies, Maesgwyn, Llanon.

Marwgofion.

Ebrill 20, DINAH DAVIES, Brooklands, Llanfihangel-Ystrad, gweddw y diweddar Walter Davies, Pontmarchog, Cribyn, yn 82 mlwydd oed. Er yn oedrannus yr oedd yn iach ac yn gryf, ond cafodd ergyd o'r parlys, a daeth y diwedd ym mhen ychydig amser. Yr oedd yn ferch i'r diweddar Mr. a Mrs. Daniel Jenkins, Glanwern, ac felly yn perthyn i bobl a fu'n lluosog ac yn amlwg yn y sir. Yr oedd yn nodedig am ei serchowgrwydd a'i charedigrwydd ac yr oedd iddi lu o gyfeillion. Claddwyd ym mynwent eglwys Ystrad. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Lewis Williams, Rhydygwin ; T. Lloyd Jones, Ty'ngwndwn a E. Jones, Ficer Ystrad. Gadawodd mewn galar dri mab, un ferch, un brawd, ac amryw o ŵyrion a neiaint.

Ebrill 23, baban newydd-anedig Tom ac Ena Thomas, Velindre, Talsarn. Claddwyd yng Nghapel-y-Groes y dydd Gwener dilynol, y Parchedig D. Evans, yn gwasanaethu.

Ebrill 26, ar ôl cystudd maith a chaled, MARY LEWIS gweddw y diweddar Thomas Lewis, Penbryn, Horeb, Llandysul, yn 84 oed. Merch ydoedd i'r diweddar Evan ac Anne Evans, Red Lion ger Capel-y-Fadfa. Yng Nghapel-y-Fadfa y magwyd hi, ac yn ei chalon un o blant Capel-y-Fadfa oedd hyd y diwedd. Bob haf gwelid hi'n y fynwent yn glanhau beddau'i rhieni. Cafodd oes faith, a gwnaeth ddefnydd da o'i hamser. 'Roedd yn fenyw lanwedd, gryno, a hollol onest ei siarad. Collodd fab yn rhyfel 1914—18, a gwnaeth hynny ei ôl yn drwm arni. Bu'n ffyddlon fel mam a mamgu ac nid syndod fod y ddwy ferch a'r wyrion yn teimlo'i cholli. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym Mwlchygroes ym medd ei phriod, a gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parchedig Tom Davies a'r Parchedig E. O. Jenkins.

Ebrill 26, yn 77 mlwydd oed SARAH DAVIES, gweddw y diweddar David Davies, Clyd-dai, Cribyn. Gwannaidd oedd ei hiechyd ers rhai misoedd, ond daeth y diwedd yn anisgwyliadwy, ac ni chafodd ei chyfyngu i'w gwely ond am ychydig ddyddiau. Yr oedd yn un fywiog iawn, ac heb fod byth yn brudd ac isel ei hysbryd. Hoffid ei chymdeithas gan fod ei hysbryd siriol yn gwneud i eraill deimlo'n hapusach. Bu yn ddiwyd gyda'i gorchwylion ar hyd ei bywyd, ac ni fu oriau segur yn ei hanes. Bu fyw i'w theulu, a chyfrannodd ei llafur yn helaeth tuag at wneud eu hamgylchiadau yn rhai mor ddymunol. Yr oedd yn nodedig o garedig, ac er fod dyddiau'r cardodau bron a darfod, derbyniodd llawer gardodau o'i llaw hi hyd y diwedd. Claddwyd ym mynwent Rhydygwin. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Lewis Williams. Gadawodd mewn galar dwys bedwar mab, dwy ferch, un brawd, meibion a merched yng nghyfraith, neiaint ac ŵyrion a pherthynasau eraill.

Nos Sul, Mai 11, yn hynod o ddirybudd, bu farw DANIEL DAVIES, Pantyrhwch, plwyf Llanbedr yn 57 oed. Dyn o ysbryd heddychol, gwledig, o rodiad cywir, a fawr berchid gan ei gymdogion a chylch ei adnabyddiaeth. Claddwyd ym mynwent Eglwys Llanwnen y dydd Mercher dilynol, y cynhebrwng yn gyfyngedig i berthynasau a chymdogion. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchedig D. Evans, ac yn Llanwnen, gan y ficer, y Parchedig S. Morgan.

Nodion yr Eglwysi.

LLWYNRHYDOWEN. Hwyr Gwener y Groglith cafodd yr Ysgol Sul a'r gynulleidfa ei gwyl Dê flynyddol, a daeth torf dda ynghyd.

Gotalodd y chwiorydd am ddigonedd o bethau blasus i'r byrddau, a chafwyd hwyl fawr gyda'r gwaith. Y tê drosodd, gwobrwywyd y plant am gadw'r Ysgol Sul.

'Roedd un wedi cadw'r ysgol am wyth mlynedd yn ddifwlch, un arall wedi cadw pum mlynedd.

Yn absenoldeb yr arolygyddes am 1946 (Mrs. Bebb) cyflwynwyd y llyfrau gan yr arolygyddes am eleni, sef Miss Myra Parry sydd hefyd yn ysgrifenyddes yr Ysgol.

CILIAU AERON.—Mai 7 cynhaliodd y gynulleidfa ei Sosial flynyddol. Daeth bron pawb a berthyn i'r lle ynghyd. Mor llawn oedd y byrddau o ddanteithion amrywiol fel yr oedd yn rhaid fod y gwragedd wedi cynilo gartref ar gyfer y dydd hwn. Gwnaed rhaglen y gyngerdd gan Mr. T. Elias, C.M., Parc, ac arweiniodd yn y cyfarfod. Rhoddai y rhaglen gyfle i'r bobl ieuainc amlygu eu gwybodaeth a'u galluoedd, a gwnaethant hynny yn amlwg iawn. Caed amser pleserus a diddorol. Ar y diwedd derbyniodd pob plentyn rodd o arian drwy garedigrwydd Mrs. Davies, Y Foelallt. Diolchodd y gweinidog i bawb am eu cyfraniadau tuag at y wledd, a therfynwyd drwy ganu emyn.

CYMANFA YSGOLION CYLCH LLANDYSUL.—Cynhaliwyd yn Llwynrhydowen ar Fai 25. 'Roedd yr hin yn wir ddymunol a daeth tyrfa fawr ynghyd. Arweinydd y gân oedd Mr. J. C. Jones, Derwydd, un a fu am flynyddoedd yn arweinydd y gân yn Llwynrhydowen, a'i dad am flynyddoedd lawer o'i flaen. 'Roedd pawb yn falch gweld yr elfen mor fyw ynddo o hyd. Cyn gorffen y dydd dywedodd ei fod yn fodlon cymeryd dosbarth i ddysgu Solffa yn y pedwar lle ond i'r cynulleidfaoedd drefnu dosbarth gweddol luosog i'r diben. Hyderwn yn fawr y manteisir ar y cynnig. Gweinyddwyd wrth yr organ gan Miss Myra Parry, un o ffyddloniaid Llwynrhydowen. Holwyd y plant ar hanes Josef gan Mr. Ted Jones, Brondeifi, a chafodd yr holwr a'r plant hwyl fawr gyda'r gwaith. Ef hefyd a holodd yr ysgolion, Ioan 10 yn faes llafur. Yma eto cafwyd hwyl dda. Yn yr hwyr cafwyd Anerchiad amserol iawn gan Mr. Ted Jones, byrdwn yr hon oedd apêl daer am ymroddiad llwyrach i waith yr Ysgol Sul—os diflanna'r Ysgol Sul cyn hir fe ddiflanna'r cynulleidfaoedd hefyd. Ar ran yr ymwelwyr diolchwyd i gynulleidfa'r Llwyn am dderbyn y Gymanfa gan Mr. E. Lloyd Jones, Capel-y-Fadfa. Cafwyd Cymanfa lewyrchus ar ei hyd.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.